Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# St Gerard's School Trust

**Ffordd Ffriddoedd**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â St Gerard's School Trust

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | St Gerards School Trust |
| Perchennog | St Gerards School Trust |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol gydaddysgol brif ffrwd, annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Na |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 140 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 134 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/05/2022 |
| Adeg yr arolygiad, roedd pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth ar absenoldeb astudio. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae St Gerard's School yn rhoi pwyslais cryf ar les a safonau academaidd fel ei gilydd. Rhoddir blaenoriaeth i les pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a'u disgyblion.

Mae disgyblion yn falch o'u hysgol. Gwrandewir arnynt ac maent yn teimlo y gallant ddylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae gan ddisgyblion foeseg waith gref, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymgysylltu'n dda ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu.

Mireiniwyd symud prydlon i ddarpariaeth ar-lein, yn ystod brig pandemig COVID-19 trwy gydol y cyfnodau clo. Sicrhaodd hyn fod dysgu disgyblion yn parhau a bod deilliannau mewn arholiadau cyhoeddus yn parhau'n gryf.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, ac o fewn heriau ei chyd-destun fel ysgol fach, yn ymateb yn briodol i ddiddordebau unigol disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, mae cyflwyno addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI) a gyrfaoedd yn llai datblygedig o lawer nag agweddau eraill ar y cwricwlwm.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda, ac yn y gwersi gorau, maent yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a chreadigol. Yn y gwersi hyn, mae amrywiaeth o weithgareddau ag iddynt gyflymdra da, ynghyd â holi effeithiol gan staff, yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf ac yn arwain at ymgysylltiad cryf a mwynhau gwersi.

Penodwyd y pennaeth yn 2017, ac mae wedi gweithio ochr yn ochr â'i uwch dîm wrth iddynt wynebu heriau yn sgil pandemig COVID-19. Mae'r ysgol wedi symleiddio'i hymagwedd at lywodraethu ac mae'r ymddiriedolwyr yn datblygu eu rôl fel ffrind beirniadol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi profi cyfnod o heriau staffio ac, o ganlyniad, mae anghysondeb mewn arferion, ac nid yw pob menter newydd yn cael ei gwreiddio.

Mae St Gerard's School yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, sydd eu hangen i gynnal cofrestriad.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer ABGI a gyrfaoedd ar draws yr ysgol

A2 Gwella monitro i nodi amrywioldeb mewn darpariaeth, a mynd i'r afael ag ef

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai ddosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol hefyd.

# Prif ganfyddiadau

## Dysgu

Ar draws yr ysgol, ac yn holl feysydd y cwricwlwm, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn amrywiol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dirnad syniadau newydd yn gyflym ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Yn yr ysgol iau, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau cyfathrebu ymhell y tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn yr ysgol hŷn, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau i ddatblygu'r medrau hyn. Mae deilliannau mewn arholiadau cyhoeddus yn gryf. Mae'r ysgol yn rhagori ar y cyfartaleddau cenedlaethol mewn TGAU a Safon Uwch yn gyson, yn enwedig nifer y graddau A* ac A.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn goeth iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus, yn huawdl, ac yn gysurus yn trafod eu gwaith gyda'u cyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad ag eglurder, yn defnyddio gramadeg cywir, ac yn addasu eu hiaith yn briodol yn ôl y gynulleidfa. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn parchu barn ei gilydd, er enghraifft wrth gyflwyno creiriau teuluol o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae disgyblion o bob oedran yn defnyddio geirfa wyddonol a thechnegol briodol yn hyderus, er enghraifft mewn mathemateg pan fyddant yn trafod trawsnewidiadau neu mewn Ffrangeg pan fyddant yn nodi amser cywir y ferf.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos medrau darllen cryf ochr yn ochr â chariad at lyfrau a llenyddiaeth. Gall disgyblion iau ddadgodio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac ateb cwestiynau darllen a deall syml yn ddeallus. Mae safonau'r disgyblion hyn uwchlaw'r safonau sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Wrth i fedrau darllen disgyblion ddatblygu, maent yn darllen yn dda i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso llenyddiaeth ar draws amrywiaeth o wahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth gyferbynnu adroddiadau am ddigwyddiadau o wahanol Efengylau neu ddarllen sgript i recordio blog ym Mlwyddyn 5.

Mae safon yr ysgrifennu yn gryf iawn ar draws yr ysgol, ac wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn datblygu'r medrau priodol i ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Gall bron pob un o'r disgyblion ieuengaf ysgrifennu geiriau tair llythyren o'u cof yn gywir. Defnyddiant eu gwybodaeth am seiniau i geisio ysgrifennu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd yr ysgol iau, mae ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'i lunio'n dda, wedi'i atalnodi'n gywir, ac yn ramadegol gywir. Mae'n aml yn ddoniol a difyr, ac yn cwmpasu amrywiaeth o genres, fel barddoniaeth, sgriptiau drama, adroddiadau papur newydd, neu storïau ffuglennol. Yn yr ysgol hŷn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r medrau i allu dadansoddi, dadlau, ac ysgrifennu'n estynedig. Er enghraifft, yn y chweched dosbarth, mae prosiectau ymchwil a gwblhawyd yn annibynnol ar gyfer eu Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ), yn arddangos graddau uchel o feddwl beirniadol, defnydd cywir o gyfeiriadau academaidd, ac yn defnyddio ystod eang o destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oed yn arddangos medrau mathemategol cryf. Yn ychwanegol, mewn ychydig iawn o achosion yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn perfformio gryn dipyn uwchlaw lefel ddisgwyliedig eu hoedran. Gall y

disgyblion ieuengaf ddyblu rhifau un digid yn hyderus a galw i gof eu tablau lluosi â phump a deg mor bell â 100. Erbyn cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn deall cysyniadau mathemategol cymhleth, fel rhifau bychan iawn. O roi'r cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifiadol hyn yn llwyddiannus mewn cyd-destun gwahanol, er enghraifft wrth blotio croestoriad o afon mewn daearyddiaeth.

Mae medrau digidol disgyblion yn hynod ddatblygedig. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o becynnau cyfathrebu a meddalwedd yn effeithiol. Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio peiriannau chwilio yn hyderus i ddod o hyd i wybodaeth, ac wedyn yn creu cyflwyniadau digidol sy'n cynnwys delweddau a thestun fel ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio codio yn frwdfrydig i greu eu gemau fideo eu hunain y maent yn eu gwerthuso gyda'i gilydd. Yn yr ysgol hŷn, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o feddalwedd, er enghraifft i recordio cyfansoddiadau a golygu delweddau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Mae cyfleoedd rheolaidd yn y gwasanaethau wythnosol i ddisgyblion berfformio'n gerddorol, gan gynnwys eu cyfansoddiadau eu hunain. Mae'r disgyblion hyn yn perfformio'n egnïol a gyda chywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth ganu tôn gron a chaneuon partner mewn hyd at bedair rhan. Yn yr ysgol iau, mae disgyblion yn perfformio yn nrama'r ysgol yn frwdfrydig.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando addas yn Gymraeg, tra bod eu medrau siarad yn llai datblygedig. Er enghraifft, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn deall gwybodaeth a gyflwynir iddynt am gefndir, hoffterau a chasbethau unigolyn. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen priodol ar draws yr ysgol, er enghraifft i chwilio am wybodaeth yn Gymraeg. I'r disgyblion hynny sy'n dewis astudio Cymraeg ar gyfer TGAU a Safon Uwch, mae deilliannau'n eithriadol o uchel.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel mewn amgylchedd gofalgar ac anogol lle rhoddir blaenoriaeth i les disgyblion. Maent yn falch o'u hysgol, sy'n hyrwyddo diwylliant o oddefgarwch, caredigrwydd a pharch. Mae disgyblion yn hyderus i siarad â staff am unrhyw bryderon ac maent yn gwybod y byddant yn delio ag unrhyw broblemau yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu. Mewn gwersi, mae disgyblion yn frwdfrydig, yn ymgysylltu'n dda ac yn mynd ati'n gyflym i weithio heb anogaeth. Mae ganddynt foeseg waith gref ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnod estynedig. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ofyn cwestiynau a'u hateb i ymestyn eu dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn huawdl ac yn cyfrannu at drafodaethau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ddatrys problemau, fel y gwelir mewn Ffrangeg ym Mlwyddyn 10 a Hanes ym Mlwyddyn 9 lle mae athrawon yn cynorthwyo ac yn annog disgyblion i fireinio ac ymestyn eu hatebion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion a'r athrawon. Caiff perthnasoedd cadarnhaol a pharchus eu meithrin. Mae disgyblion yn cynorthwyo'i gilydd yn dda wrth weithio mewn parau neu grwpiau bach. Yn y 'Gemau Olympaidd Bach' ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae disgyblion yn llongyfarch ei gilydd yn frwdfrydig ar eu cyflawniadau. Mae disgyblion yn garedig ac ystyriol wrth weithio mewn grwpiau ac yn cydweithio'n hyderus i wneud cynnydd. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cymell gan system deilyngdod ddatblygol yr ysgol, a dethlir llwyddiannau unigol â Gwobr Dinesydd yr Wythnos a'r Wobr Ymdrech Eithriadol.

Mae disgyblion â chyfrifoldebau neu rolau arwain, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cynnwys yng nghyfarfodydd wythnosol y cyngor ysgol, yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar yr ysgol a gwneud newidiadau cadarnhaol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi trafod ag arweinwyr yr ysgol yn llwyddiannus i ddarparu ffynnon ddŵr newydd, cyflwyno siop fwyd, prynu offer maes chwarae, a datblygu gardd er cof am gyn-aelod o staff. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg a bod eu hathrawon ac arweinwyr yr ysgol yn gwrando arnynt. Er enghraifft, mewn addysg gorfforol ym Mlwyddyn 7, cynigiodd yr ysgol i ferched chwarae badminton a bechgyn chwarae rygbi, ond roedd bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i gymryd rhan yn y ddau fath o chwaraeon, felly gwnaed newidiadau i alluogi pob disgybl i brofi'r ddau weithgaredd.

Mae disgyblion yn parchu'r amrywiaeth yng nghymuned yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth o ddiwylliannau eraill ac empathi â nhw. Atgyfnerthir hyn mewn gwasanaethau ysgol, ABGI yng nghyfnod allweddol 3, ac mewn digwyddiadau blynyddol fel yr Eisteddfod. Yn yr ysgol iau, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a bod yn egnïol yn gorfforol. Ceir arddangosfeydd amlwg sy'n portreadu buddion ffyrdd iach o fyw yn yr ysgol iau. Mae disgyblion yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored yn briodol. Er enghraifft, mewn ABGI, mae disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn heriau rhaff a heriau tair coes.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn gadarnhaol ag amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth neu gelf, a ailddechrewyd yn gyflym pan roedd cyfyngiadau'n caniatáu. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn clybiau sydd o ddiddordeb iddyn nhw, er enghraifft clwb gemau bwrdd, clwb entrepreneuriaid, a chlwb natur. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol; er enghraifft; mae disgyblion iau yn ymweld â Sŵ Mynydd Cymru. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 yn cymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan athrawon yn St Gerard frwdfrydedd ac angerdd gwirioneddol dros addysgu. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gref ac maent yn creu cysylltiadau effeithiol a pherthnasol ar draws y cwricwlwm i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Wrth addysgu cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae athrawon yn arddangos dealltwriaeth gref o'r gofynion i gyflawni'n uchel mewn arholiadau cyhoeddus.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda. Defnyddiant y wybodaeth hon i sicrhau bod dulliau a gweithgareddau yn gweddu'n agos i anghenion disgyblion, ar y cyfan. Pan fydd hyn yn fwyaf effeithiol, mae oherwydd bod athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol cryf gyda disgyblion sydd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth. Mae eu cefnogaeth sensitif a'u perthynas gadarnhaol gyda disgyblion yn gryfder yn yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae athrawon yn creu awyrgylch gweithio tawel a chynhyrchiol yn llwyddiannus lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn barod i ddysgu, ond yn cael eu herio o hyd i gyflawni mor uchel ag y bo modd. Fodd bynnag, ar ychydig iawn o achlysuron, nid yw'r addysgu'n ddigon manwl gywir i herio na chynorthwyo pob un o'r disgyblion ar yr union lefel gywir.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda a bod iddynt gyflymdra da i weddu i ddysgu eu disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ystafell ddosbarth sy'n adeiladu ar ei gilydd yn llwyddiannus ac yn hyblyg. Fodd bynnag, ar ychydig o achlysuron, mae gorddefnydd athrawon o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain a lleihau eu hymgysylltiad â gweithgareddau, a'u mwynhad ohonynt. Yn y gwersi gorau, mae athrawon yn defnyddio holi agored yn effeithiol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Yn yr amgylcheddau dysgu ysgogol a chreadigol hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau dychmygus yn dda, gyda chysylltiadau ag enghreifftiau bywyd go iawn, ble bynnag y bo modd.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn rhoi adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion. Pan fydd disgyblion yn ymateb, mae hyn yn eu helpu i wella eu gwaith, er enghraifft cywiro camgymeriadau sillafu. Mae athrawon yn awyddus i gynorthwyo disgyblion ac yn cynnig cymorth un i un i helpu symud y dysgu yn ei flaen, pan fo'n briodol. Maent wedi sefydlu mecanweithiau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd a rhannu targedau gyda disgyblion a rhieni.

Caiff rhieni adroddiadau manwl ac addysgiadol am gynnydd eu plentyn. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi beth mae eu plentyn wedi'i gyflawni ac yn cynnwys targedau penodol fel eu bod yn gwybod sut i wella. Mae amseriad adroddiadau yn cydgysylltu'n dda ag adegau arwyddocaol yn nhaith ysgol disgybl, er enghraifft cyn opsiynau Blwyddyn 9. O ganlyniad, mae gan rieni a disgyblion sail dystiolaeth dda ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ac yn bodloni'r gofyniad ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn yr ysgol iau, ers yr arolygiad diwethaf, cryfhawyd y trefniadau ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd ac mae hyn wedi arwain at safonau uwch. Yn ychwanegol, cyflwynir rhai o feysydd y

cwricwlwm yn effeithiol trwy ymagwedd yn seiliedig ar destun. Hefyd, mae disgyblion yn elwa ar addysgu arbenigol mewn ystod o bynciau.

Yn yr ysgol hŷn, yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth fel ei gilydd, caiff y cwricwlwm ei deilwra i anghenion yr unigolyn. Pan fydd modd, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i astudio pynciau y mae gan ddisgyblion ddiddordeb neu ddawn ynddynt, yn cynnwys iMedia creadigol, Cymraeg a mathemateg bellach.

Yn yr enghreifftiau gorau oll, caiff cwricwlwm yr ysgol ei gefnogi gan gynlluniau gwaith manwl. Mae'r rhain yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw pob cynllun gwaith yn cynnwys lefel briodol o fanylder. O'r herwydd, yn yr achosion hyn, nid yw cynlluniau gwaith bob amser yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion feithrin eu medrau ehangach yn ddigonol, er enghraifft llythrennedd, rhifedd neu gymhwysedd digidol.

Ar draws yr ysgol, mae'r dyraniad amser ar gyfer addysgu ABGI yn anghyson. Yn ychwanegol, nid yw'r cynllunio ar gyfer addysgu ABGI wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, mae disgyblion yn colli'r cyfle i fynd i'r afael ag agweddau pwysig ar y pwnc.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ar draws yr ysgol, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a'r clwb entrepreneuriaid. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mwynhaodd Blwyddyn 8 daith maes i astudio afon leol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r amgylchedd anogol a'r ymagwedd yn canolbwyntio ar y disgybl yn gryfderau yn yr ysgol. Mae perthnasoedd gweithio rhwng staff a disgyblion yn hynod barchus, gofalgar a chefnogol. Rhoddir blaenoriaeth i les pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae pob un o'r athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod lles disgyblion unigol a rhannu strategaethau i gefnogi eu hanghenion academaidd a bugeiliol fel ei gilydd. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn cynorthwyo'i gilydd yn dda, er enghraifft ymgysylltu â'u cyfoedion ar y fainc cyfeillgarwch yn yr ysgol iau. Lle bo'n briodol, mae'r ysgol yn ymgysylltu'n adeiladol ag asiantaethau allanol, er enghraifft i ddarparu cymorth arbenigol ar gyfer iechyd meddwl disgyblion.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr, mewn partneriaeth ag athrawon, disgyblion a rhieni, wedi datblygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r cydlynydd newydd wedi gweithio'n ddiwyd gyda disgyblion unigol i nodi eu hanghenion dysgu. Mae hi wedi cyflwyno sesiynau dysgu proffesiynol gwerth chweil i godi ymwybyddiaeth staff am strategaethau i gynorthwyo disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r cydlynydd yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion a nodwyd i ddyfeisio proffil defnyddiol o anghenion unigolion a chynllunio ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol. Mae'r cydlynydd yn monitro llwyddiant y cynlluniau hyn yn agos. Lle bo'n briodol, mae hi'n cynnwys cymorth arbenigol priodol, er enghraifft y seicolegydd addysg.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i awgrymiadau gan ddisgyblion. Mae'r cyngor ysgol gweithredol yn darparu cyfleoedd arwain gwerth chweil ar gyfer disgyblion ar

draws yr ysgol. Hefyd, mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgol iau yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu’n annibynnol, er enghraifft fel rhan o’u gwersi mewn dinasyddiaeth fyd-eang a medrau bywyd a’r clwb menter wythnosol. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 10 gyfle i ddatblygu eu medrau arwain trwy Wobr Dug Caeredin.

Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i berfformio mewn cerddoriaeth a chwaraeon, ac mae staff yn dathlu’r cyfraniadau hyn gyda theuluoedd trwy gylchlythyrau’r ysgol. Mae’r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn falch trwy’r Eisteddfod flynyddol lle mae corau tai a cherddorion yn perfformio’n gystadleuol. Mae disgyblion yr ysgol iau yn ymfalchïo yn eu rolau yng nghynhyrchiad diweddar 'Charlie and the Chocolate Factory'.

Mae’r ysgol yn darparu gwasanaethau wedi’u cynllunio’n effeithiol, ac mae gofal, tosturi a dealltwriaeth yn themâu cyffredin ar gyfer y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae gwasanaethau fel Dydd y Cofio a Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn adlewyrchu digwyddiadau lleol a chenedlaethol. Mae llawer o ddisgyblion yn cefnogi eu cymuned leol trwy waith elusennol ac mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth am bobl sy’n llai ffodus na nhw eu hunain.

Yn yr ysgol iau, ceir rhaglen gynlluniedig o weithgareddau yn ymwneud â’r byd gwaith. Mae arweinwyr yn darparu arweiniad priodol ar yrfaoedd yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth gynlluniedig ar gyfer arweiniad cydlynol ar yrfaoedd ar draws yr ysgol hŷn wedi’i datblygu’n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cadarn o ddiogelu yn yr ysgol. Ceir system a ddeellir yn dda i adrodd am bryderon ynghylch diogelu sy’n ymwneud â disgyblion, ac mae’r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau allanol pan fo’n briodol. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r staff yn gwybod at bwy y dylent droi os bydd ganddynt bryderon am yr unigolyn diogelu dynodedig.

Mae’r unigolyn diogelu dynodedig yn darparu hyfforddiant diogelu rheolaidd ar gyfer pob aelod o staff. Mae gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio mwy diogel ac mae’n sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant diogelu. Codwyd ychydig o faterion yn ymwneud â gwirio cofnodion gyda’r ysgol ac aethpwyd i’r afael â’r rhain yn ystod yr arolygiad.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr uchelgeisiau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, a disgwyliadau uchel o’u staff. Caiff uwch arweinwyr eu parchu’n dda, maent yn weladwy ac yn bobl hawdd mynd atynt. Maent yn poeni am les pawb, ac yn datblygu diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus. Mae gan y tîm arweinyddiaeth fedrau cyflenwol ac maent yn rhannu eu cyfrifoldebau niferus yn briodol rhyngddynt eu hunain.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi profi cyfnod o heriau staffio. Mae’r staff yn dîm gwydn a chydlynol, sy’n gweithio gyda’i gilydd yn dda er lles y disgyblion. Er enghraifft, yn ystod dechrau’r pandemig, addasodd staff yn gyflym i ddysgu defnyddio platfformau TG newydd a datblygu ffyrdd o addysgu a dysgu o bell.

Mae gan arweinwyr canol swydd ddisgrifiadau clir, ac maent yn cyflawni eu rolau yn ddiwyd ac yn broffesiynol, ar y cyfan. Maent yn cynorthwyo eu cydweithwyr yn dda, er enghraifft y rhai sy'n newydd i'r ysgol neu'r proffesiwn addysgu, trwy fentora a chyfarfodydd adrannol rheolaidd a buddiol. Mae'r rhain yn sicrhau bod pob aelod o'r adran yn cadw at derfynau amser a negeseuon ac yn cael cyfleoedd addas ar gyfer deialog broffesiynol â ffocws. Yn ddiweddar, mae adrannau llai wedi cydweithredu â'i gilydd ac mae hyn wedi rhoi cymorth defnyddiol i arweinwyr canol a allai fod wedi teimlo braidd yn ynysig fel arall.

Mae arweinwyr yn monitro gwaith yr ysgol yn briodol trwy ystod o weithgareddau gwerth chweil. Er enghraifft, ceir cylch blynyddol o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith yn fwy rheolaidd. Fodd bynnag, ar ychydig o achlysuron, nid yw monitro gwaith disgyblion gan arweinwyr a chynlluniau athrawon yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi anghysondebau rhwng agweddau ar ddarpariaeth adrannau ar draws yr ysgol. O ganlyniad, er enghraifft mewn ychydig iawn o feysydd pwnc, mae ansawdd y ddarpariaeth yn rhy amrywiol rhwng staff unigol, neu rhwng gwahanol sectorau'r ysgol.

Mae arsylwadau gwersi yn llywio proses arfarniad blynyddol staff yn llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi mireinio ac addasu'r cylch arfarnu. Mae'n darparu adolygiad defnyddiol o waith ac anghenion dysgu proffesiynol athrawon, ynghyd â mecanwaith i sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol a dwyn staff i gyfrif.

Ceir proses gydlynus ar gyfer hunanwerthuso sy'n nodi cryfderau niferus yr ysgol yn fras ac ychydig o feysydd a allai elwa ar ddatblygiad yn gywir. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at yr adroddiad, a gyflwynir i'r ymddiriedolwyr. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau addas ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant a'r deilliannau disgwyliedig yn ddigon clir, er enghraifft, i alluogi ymddiriedolwyr i ddwyn arweinwyr i gyfrif am lwyddiant y cynllun. Serch hynny, mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r rhan fwyaf o agweddau ar yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae staff newydd sy'n cael eu penodi yn elwa ar raglen ymsefydlu gefnogol. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd rheolaidd i staff gymryd rhan mewn sesiynau datblygiad proffesiynol mewnol gwerth chweil. O ganlyniad i'r cyfyngiadau diweddar, mae llawer o'r cyfleoedd hyn wedi bod ar-lein. Fodd bynnag, ers dechrau'r pandemig, ychydig o staff yn unig sydd wedi dewis cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymddiriedolwyr yr ysgol wedi goruchwylio newidiadau i gyfansoddiad ac erthyglau'r ysgol. Mae eu hadolygiad wedi arwain at drefniadau llywodraethu symlach, er enghraifft trwy uno cyfarfodydd gweithredol y llywodraethwyr â chyfarfodydd bwrdd mwy strategol yr ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r newidiadau hyn, ac ar hyn o bryd, nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol wedi'i datblygu'n ddigonol. Serch hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn eithriadol o gefnogol i'r ysgol. Maent yn goruchwylio ei chyfeiriad strategol ac yn monitro'r cyllid yn drylwyr.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchennog/perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: Gwefan Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2022